**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Ariannu Allanol

**Ystafell Bwyllgor 5, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 4 Mawrth 2020 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| R Francis-Davies | D H Hopkins | A S Lewis |
| C E Lloyd | S Pritchard | J A Raynor |
| A H Stevens | M Thomas | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Gaynor Winsor | Cyfrifydd |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |
| Clare James | Rheolwr Datblygu Economaidd |
| Geoff Bacon | Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): Alyson Pugh

---

## 30 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

## 31 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y Panel Ariannu Allanol a gynhaliwyd ar 5 Chwefror 2020 yn gofnod cywir.

## 32 Cronfa Gyfalaf yr Economi Gylchol Llywodraeth Cymru 2019-20 - Cynnig cefnogaeth gyfalaf er mwyn cyflwyno gweithio ystwyth yn Neuadd y Ddinas, Abertawe.

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo adroddiad i roi manylion am Gronfa Gyfalaf Economi Cylchol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20 i gefnogi'r gwaith parhaus o gyflwyno gweithio ystwyth yn Neuadd y Ddinas, Abertawe.

**Penderfynwyd** rhoi cymeradwyaeth i dderbyn unrhyw gynnig grant yn sgîl cyflwyno cais ariannu i Gronfa Gyfalaf Economi Gylchol Llywodraeth Cymru 2019-20 i gefnogi'r gwaith o gyflwyno gweithio ystwyth yn Neuadd y Ddinas, Abertawe.

## 33 Gwahardd y cyhoedd.

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem fusnes/eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail ei fod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y Pwyllgor Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes/eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel y nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 34 Ceisiadau Cronfa Isadeiledd Gwyrdd Llywodraeth Cymru a Chyfle am Arian Grant Cyfalaf Tasglu'r Cymoedd.

Cyflwynodd y Rheolwr Datblygu Economaidd adroddiad a oedd yn rhoi manylion y ceisiadau ariannu a gyflwynwyd i Gronfa Isadeiledd Gwyrdd Llywodraeth Cymru (LlC).

Yn dilyn trafodaethau, gofynnodd y Cadeirydd am adroddiad, i'w gyflwyno yn un o gyfarfodydd y Cabinet yn y dyfodol, a oedd yn amlinellu manylion y ceisiadau prosiect Isadeiledd Gwyrdd llwyddiannus.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cefnogir y saith o gynigion a wnaed i Gronfa Isadeiledd Gwyrdd LlC;
2) Mae'r panel yn bwriadu cynnal trafodaethau ynghylch cronfa arian grant cyfalaf ar gyfer ardaloedd Tasglu Cymoedd De-orllewin Cymru.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.17 pm

**Cadeirydd**